# BUSNESAU NEWYDD GRADDEDIGION YNG NGHYMRU

Universities Wales
Prifysgolion Cymru

# BLE YNG NGHYMRU



# CYNNWYS


4/5 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

6/7 Prifysgol Aberystwyth

8/9 Prifysgol Bangor

10/11 Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

12/13 Prifysgol Caerdydd

14/15 Y Brifysgol Agored yng Nghymru

16/17 Prifysgol Abertawe

18/19 Prifysgol De Cymru

20/21 Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

22/23 Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

24 Manylion cyswllt

# RHAGARWEINIAD Y CADEIRYDD

Ledled Cymru, mae prifysgolion yn chwarae rôl allweddol mewn cynnal a hybu economi Cymru. Canfu astudiaeth annibynnol fod prifysgolion Cymru wedi creu allbwn o £5bn a bron i 50,000 o swyddi yng Nghymru yn 2015/16. Mae natur y cyfraniad economaidd hwnnw'n eang, o gyflogi staff yn uniongyrchol i gysylltiadau ymchwil ac arloesedd gyda chymunedau a chyflogwyr.

Un maes nad yw efallai bob amser yn cael ei ystyried wrth edrych ar effaith ein prifysgolion yw sut mae ein prifysgolion yn annog a chynnig cefnogaeth i fusnesau newydd. Mae hyn yn digwydd ar sawl ffurf, er enghraifft bydd staff mewn prifysgolion yn aml yn dechrau cwmnïau sy'n seiliedig ar eu gwaith ymchwil. Grŵp arall o fusnesau newydd sy'n derbyn cefnogaeth ac anogaeth gan brifysgolion yw'r rheiny a gaiff eu sefydlu gan fyfyrwyr a graddedigion.

Mae entrepreneuriaeth ar ran myfyrwyr a graddedigion wedi cael sylw penodol gan Brifysgolion Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf. Rydym wedi gweithio i ddwyn sylw at y cyfraniad blaengar a gwerthfawr mae'r busnesau hyn yn ei wneud i Gymru, yn ogystal â sut mae prifysgolion yn rhoi cymorth i'r myfyrwyr a'r graddedigion hynny wrth iddynt sefydlu eu cwmnïau.

Mae Cymru'n perfformio'n dda o ran busnesau sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion. Mae'r arolwg blynyddol o Gydweithrediad Rhwng Addysg Uwch, Busnesau a Chymunedau yn canfod yn gyson bod Cymru'n perfformio'n well na gweddill y DU o ran y nifer o fusnesau newydd sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion per capita. Hefyd, mae'r cwmnïau hynny'n fwy tebygol o bara tair blynedd neu fwy, o gymharu â'r rheiny sydd mewn rhannau eraill o'r DU.

Efallai na ddylai hyn ein synnu, oherwydd cyfeirir yn aml at Gymru fel gwlad mentrau bach a chanolig - busnesau sy'n cyflogi rhwng 0 a 9 o bobl yw 95% o'r mentrau yng Nghymru. Ac o'r herwydd, mae gan gwmnïau a gaiff eu sefydlu gan fyfyrwyr a graddedigion y potensial i ffurfio rhan bwysig o ffyniant economaidd Cymru yn y dyfodol.

Mae'r cymorth a gynigir i'r busnesau newydd hyn gan brifysgolion yn eang, gan gynnwys cymorth ymarferol i drefnu swyddfa, bwrsariaethau i helpu â chostau sefydlu a chymorth i ganfod a sicrhau cyfleoedd ar gyfer buddsoddi. Mae myfyrwyr a graddedigion hefyd yn manteisio ar fentora a chyngor gan diwtoriaid, darlithwyr a staff menter sy'n cynnig cefnogaeth yn ystod pob cam o'r daith wrth sefydlu cwmni newydd.

Mae'r mentrau newydd rydyn ni wedi ymwneud â nhw gydol y gwaith hwn yn dangos amrywiaeth y busnesau sy'n cael eu sefydlu gan fyfyrwyr a graddedigion. O ddatblygu gemau-fideo a chwmnïau ehangu realiti, i fusnesau sy'n creu nwyddau arbenigol i'r cartref a mentrau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar addysg coedwigaeth. Mae taith pawb o ran eu menter newydd yn wahanol, ac er bod pob un ohonynt ar wahanol gam ar y daith honno, roeddent i gyd yn rhannu brwdfrydedd ac ysbryd entrepreneuriaeth y dylid ei hyrwyddo a'i ddathlu.

Fel sector, mae yna bob amser fwy y gallwn ni ei wneud. Mae cyfleoedd i ni ddarparu gwasanaeth mwy cyson, yn ogystal â ffurfio cysylltiadau pellach gyda busnesau lleol a all helpu mentrau newydd i gysylltu ymhellach â'u cymunedau lleol. Ac yn yr un modd, mae cyfleoedd i randdeiliaid eraill feddwl am sut y gallant gynnig man gweithio i gwmnïau newydd, ynghyd â chyfleoedd iddynt gwrdd, rhwydweithio a chydweithredu. Roedd y gallu i rannu dysgu a chynnig cymorth i'w gilydd yn thema allweddol a ddaeth i'r amlwg wrth sgwrsio â'r busnesau hyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn dwyn sylw at ddetholiad bach o'r 1,635 o fusnesau a sefydlwyd gan raddedigion yng Nghymru, a sut mae ein prifysgolion yn mynd ati i gefnogi ac annog entrepreneuriaeth. Hoffem ddiolch i bawb fu'n fodlon rhoi o'u hamser gwerthfawr i gyfranogi yn y gwaith hwn gyda ni, ac sydd wedi rhannu gwybodaeth am sut y bu iddyn nhw gael cymorth i sefydlu eu busnes, yn ogystal â'r pethau y gellid eu gwneud i helpu pobl fel nhw yn y dyfodol.





Yr Athro Julie Lydon OBE,
Cadeirydd, Prifysgolion Cymru

# PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Mae Prifysgol Aberystwyth yn sefydliad ymchwil blaenllaw sydd ag enw da am ragoriaeth addysgu a lefelau uchel o foddhad myfyrwyr.

Sefydlwyd Aberystwyth fel y Coleg Prifysgol cyntaf yng Nghymru yn 1872, ac mae'n cynnig amrediad eang o raglenni ar draws y celfyddydau, y gwyddorau a gwyddorau cymdeithasol. Mae'n cyfuno manylder academaidd â sylw unigol, gan ddatblygu gwybodaeth sy'n benodol i ddisgyblaethau ynghyd â'r sgiliau mae ei myfyrwyr eu hangen ar gyfer bywydau llwyddiannus.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig cymorth i fyfyrwyr, graddedigion a staff sy'n awyddus i sefydlu busnesau newydd, yn arbennig os yw'r busnesau hyn yn gysylltiedig â gwybodaeth ac arbenigedd y Brifysgol.

Beth bynnag fo syniadau cyfredol y myfyrwyr, neu lefel eu parodrwydd, mae Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol yna i gynnig cymorth a chyngor ar bob agwedd o droi eu syniad da yn fenter wych drwy ein gwasanaeth AberPreneuriaid, sy'n cynnig:

- Gweithdai a chyflwyniadau am ddim wedi'u cynnal ar y campws
- Mentora un-i-un ar ddechrau busnes gan ymgynghorydd proffesiynol
- InvEnterPrize - Cystadleuaeth flynyddol syniadau myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, gwerth £10,000
- Wythnos Sefydlu Busnesau - wythnos gyfan, bob mis Mehefin, o weithdai a chyflwyniadau ar gyfer darpar entrpreneuriaid
- Cyngor ar Gyllido
- Rhwydweithio







## Kerry Ferguson & Emlyn Jones

## Busnes: GWE Cambrian WEB

Yn arbenigo mewn dylunio a datblygu gwefannau dwyieithog, mae Kerry ac Emlyn yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o fusnesau a mudiadau. Maen nhw hefyd yn abenigwyr mewn marchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol.

*"Rhoddodd mynychu Prifysgol Aberystwyth gyfle i ni ddatblygu sgiliau gwych ar gyfer rhedeg ein busnes ein hunain - gan gynnwys rheolaeth, cadw amser, hyder a gwydnwch. Mae yna hefyd dîm ardderchog yn y Brifysgol i helpu datblygu syniadau sydd ddim ar y llwybr gyrfaoedd arferol, yn ogystal â rhwydwaith anhygoel i adeiladu arno yn y dref."*

GWE Cambrian WEB

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY



Am fwy o wybodaeth:

Louise Somerfield
*Gweinyddydd Menter*

abpstaff@aber.ac.uk

01970 622378

www.facebook.com/AberUni.Enterprise

# PRIFYSGOL BANGOR

Mae Prifysgol Bangor yn darparu ei myfyrwyr â chyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau menter ac entrepreneuriaeth a chynnig cymorth i'r rheiny sydd â diddordeb mewn bwrw ymlaen â'u syniadau busnes.

O fyfyrwyr Dylunio Cynnyrch yn yr Ysgol Addysg i'r rheiny sy'n awyddus i ymchwilio eu syniadau eu hunain ym mannau arloesedd Pontio dan y rhaglen Menter drwy Ddylunio, mae pob math o gyfleusterau a phecynnau cymorth wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer eu hanghenion ar gael i fyfyrwyr ym Mangor. Gall myfyrwyr sydd am ddatblygu eu syniadau busnes ymhellach hefyd gael mynediad i gyfleusterau meithrin busnesau yn M-SParc, Parc Gwyddoniaeth y Brifysgol ar Ynys Môn.

**Mae Prifysgol Bangor yn cynorthwyo entrepreneuriaeth myfyrwyr drwy ddarparu:**

- Gweithdai i ddatblygu sgiliau menter
- Digwyddiadau gyda siaradwyr gwadd
- Mentora un-i-un
- Cyllido ar gyfer cynnal ymchwil i'r farchnad neu i ddatblygu sgiliau menter
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau menter ym Marchnad Nadolig y Myfyrwyr bob blwyddynt
- Lleoliadau gwaith ar gyfer cwmnïau newydd
- Cyfleoedd i rwydweithio
- Cystadlaethau menter
- Cyfranogiad yn rhaglen Enactus a chynllun Entrepreneuriaeth Prifysgolion Santander

**Mae Prifysgol Bangor yn rhoi cymorth i fusnesau sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion drwy drefnu:**

- Gweithdai dechrau busnesau Hyfforddiant arbenigol ar gyfer agweddau megis Marchnata Digidol
- Mentora busnes un-i-un
- Cyfleusterau meithrein busnes am ddim am 6 mis yn M-SParc
- Cyfle i roi cynnig ar brototeipiau yng Nghanolfan Arloesedd Pontio
- Rhoi cynnig ar farchnata ym Marchnad Nadolig y Myfyrwyr bob blwyddyn
- Bwrsariaethau menter
- Digwyddiadau ar gyfer cynnig syniadau
- Cyfleoedd i rwydweithio
- Cystadleuaeth ar gyfer cwmnïau newydd






*Jemima'n cyflwyno mewn digwyddiad cyflogadwyedd ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael mewn coedwigaeth.*




## Mima Letts
## Busnes: Tree Sparks

Menter gymdeithasol yw Tree Sparks, sydd â'r nod o chwalu'r mythau sy'n perthyn i goedwigaeth a dangos bod gyrfaoedd gwerth-chweil ar gael mewn coedwigaeth sy'n fuddiol i bawb!

*"Nes i ond dechrau fy musnes fy hun oherwydd yr anogaeth a'r gefnogaeth ges i gan bawb ym Mhrifysgol Bangor. Es i o byth ystyried bod yn entrepreneur i fod yn berchen ar fusnes; roeddwn i'n gallu mynd i weld cynghorydd busnes, cael gafael ar gyllido ar gyfer prosiectau a chymorth mewn cystadlaethau gan B-Enterprising, anogaeth gan fy narlithwyr a chyhoeddusrwydd gan y tîm cyfathrebu corfforaethol."*

Tree Sparks
Igniting conversation about trees

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



Am fwy o wybodaeth:

Lowri Owen,
*Rheolwr Prosiectau Menter, Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd*

01248 388424

Lowri.owen@bangor.ac.uk

# PRIFYSGOL FETROPOLITAN CAERDYDD

Sefydlwyd y Ganolfan er Entrepreneuriaeth (CEE) ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd yn 2013 fel adran arbenigol ar gyfer datblygu ac annog myfyrwyr, graddedigion a staff i ymwneud ag addysg entrepreneuriaeth.

Mae'r tîm arobryn yn cynnwys arbenigwyr mewn addysg entrepreneuriaeth ac entrepreneuriaid profiadol sy'n hyrwyddo agwedd fodern ar addysgu entrepreneuraidd, gan greu canolfan er rhagoriaeth o fewn y Brifysgol.

Yn 2017, agorodd y Ganolfan raglen feithrin a chyflymu busnes o'r enw CF5, er mwyn darparu amgylchedd sy'n annog busnesau a sefydlwyd gan raddedigion, ynghyd â hyb menter ar gyfer busnesau lleol a graddedigion o Gymru. Mae CEE yn rhoi cymorth i 100 o fusnesau newydd ac annibynnol bob blwyddyn.

**Mae CEE yn cynnig:**

- Rheolwr Ymwneud ag Entrepreneuriaeth
- Darlithydd Addysg Entrepreneuriaeth newydd ei benodi i helpu â datblygu dysgu entrepreneuriaeth ar draws y 5 ysgol academaidd.
- Nifer o ddigwyddiadau megis sesiynau hyfforddiant, gweithdai, rhwydweithio a chystadlaethau bob wythnos.
- Cymdeithas Entrepreneuriaeth weithgar wedi'i chyllido
- Cyfle ar gyfer meithrin busnesau i raddedigion ac entrepreneuriaid o'r DU
- Fisas cychwyn busnesau ar gyfer graddedigion Met Caerdydd ac Ôl-raddedigion o'r DU
- Cyngor gan fusnesau sydd bellach wedi sefydlu eu hunain, gan gynnwys Myfyriwr Entrepreneur y Flwyddyn Santander ac enillydd Person Busnes Ifanc y Flwyddyn yng Ngwobrau Busnes Caerdydd
- Mynediad i rwydwaith buddsoddi, angylion, mentoriaid a chyllid cychwynnol







## Jenny Evans

### Busnes: Jenny Kate

www.jennykate.co.uk

Cwmni sy'n cynhyrchu nwyddau i'r cartref ac ategolion ffasiwn o safon uchel yw Jenny Kate, a hynny'n gyfangwbl yn y DU Mae'r brand yn angerddol am ddathlu natur a gweithgynhyrchu Prydain, yn ogystal â hyrwyddo cynaladwyedd.

*"Bu Met Caerdydd o gymorth mawr i mi fynd â'r busnes i'r lefel nesaf. Helpodd y Ganolfan er Entrepreneuriaeth i mi weithio allan sut i dargedu cwsmeriaid busnes, ac yn y pen draw rhoddodd i mi'r hyder i ymgeisio am grant Entrepreneuriaeth Prifysgolion Santander. Rhoddodd y grant hwn yr arian cychwynnol yr hyder i mi ailfrandio ac adeiladu Jenny Kate i fod yr hyn y mai heddiw".*

JENNY KATE
OPEN THE DOOR TO NATURE

Cardiff Met
MetCaerdydd



Am fwy o wybodaeth:

www.cardiffmet.ac.uk/entrepreneurship

entrepreneurship@cardiffmet.ac.uk

@CardiffMetEnt

@CardiffMetEnt

# PRIFYSGOL CAERDYDD


Ym Mhrifysgol Caerdydd, mae'r Tîm Entrepreneuriaeth a Busnesau Newydd yn rhoi grym i fyfyrwyr ddod â'u syniadau'n fyw. Mae'r tîm yn cynnal digwyddiadau a gweithdai, o fewn a thu allan i'r cwricwlwm, i alluogi myfyrwyr i feddwl yn greadigol, dynodi cyfleoedd, datrys problemau a gweithredu.

Mae'r tîm hefyd yn cynnig Pecyn Cymorth i Fusnesau Newydd, sef taith tri-cham sy'n tywys myfyrwyr o'r cysyniad i lansio'r fenter. Mae gweithio drwy'r pecyn cymorth yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gael gafael ar fentora, cyllido cychwynnol, lle wrth ddesg, rhaglenni cyflymu a'n gwobrau blynyddol ar gyfer Myfyrwyr sy'n Sefydlu Busnesau Newydd, gyda phrif wobr gwerth £30k mewn arian a chymorth.

**Mae Prifysgol Caerdydd yn cynorthwyo entrepreneuriaeth myfyrwyr drwy ddarparu:**

- Gweithdai sgiliau
- Digwyddiadau rhwydweithio a siaradwyr gwadd
- Cyllido cychwynnol
- Mentora busnes
- Lle i weithio
- Grantiau ar gyfer Busnesau Newydd
- Wythnos gyflymu busnes
- Digwyddiadau i roi cynnig ar fasnachu
- Prosiectau profiad uniongyrchol yn y gymuned leol
- Cymeradwyaeth FISA Busnes Newydd Haen-1
- Lle mewn swyddfa am ddim am 12 mis i raddedigion

Mae Prifysgol Caerdydd hefyd yn cynnig cymorth cynhwysfawr i raddedigion sy'n dechrau eu busnes eu hunain. Hyd at 3 blynedd ar ôl graddio, gall myfyrwyr Caerdydd gael gafael ar yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Tîm Entrepreneuriaeth a Busnesau Newydd a'r adran ehangach sy'n ymwneud â Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.







## George Bellwood
**Cwmni: Virtus Tech**

Cwmni Realiti Rhithwir yng Nghaerdydd sy'n cyflwyno ffordd newydd ac arloesol o ddangos busnesau ar-lein, gan gyfuno data amser real drwy lwyfan rhyngweithiol.

*“Mae'r ffaith i mi fynychu Prifysgol Caerdydd wedi golygu fy mod i'n gallu dat-gloi sawl cyfle, o ran dechrau fy nhgwmni ac o ran dysgu. Maen nhw wedi fy narparu â chymorth diddiwedd ar gyfer fy musnes ac i mi fel entrepreneur, naill ai ar ffurf cyngor gan academyddion profiadol neu drafodaeth gyffredinol â'r tîm Menter Myfyrwyr yn undeb y myfyrwyr”.*

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd



Am fwy o wybodaeth:

Hyb Sgiliau, 2il Lawr, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Plas y Parc, Caerdydd, CF10 3QN

02920 781 442

enterprise@cardiff.ac.uk

# Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU

Mae myfyrwyr yn astudio gyda'r Brifysgol Agored drwy ddysgu â chymorth dros bellter, sy'n golygu y gallant astudio pryd a ble sy'n addas iddyn nhw. Mae dwy-ran-o-dair ohonynt mewn cyflogaeth tra byddant yn astudio, a bydd llawer yn rhedeg eu busnesau eu hunain neu'n astudio er mwyn dilyn syniad busnes.

Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig amrediad o gymorth i fyfyrwyr sydd am ddatblygu eu sgiliau entrepreneuraidd, ac mae'n berffaith i'r rheiny sydd am ennill cyflog yn ogystal â dysgu. Gall myfyrwyr hefyd gymryd modiwl Entrepreneuriaeth fel rhan o'u gradd.

**Mae arloesedd a chreadigrwydd wrth wraidd popeth mae'r Brifysgol Agored yn ei wneud. Maen nhw'n helpu myfyrwyr i gael gafael ar:**

- Cwrs Agored â Bathodyn ar Entrepreneuriaeth
- Adnodd Addysgol Agored ar gyfer Busnesau Newydd
- Cystadleuaeth entrepreneuriaeth ar gyfer cyllido ar ffurf grant
- Cwrs dwys ar benwythnos i gyflymu busnes


Mae'r Brifysgol Agored yn aelodau o rwydwaith Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth Llywodraeth Cymru, Addysg Fenter y DU, ac maen nhw'n gweithio gyda phartneriaid megis Syniadau Mawr Cymru i wreiddio menter, arloesedd a chreadigrwydd mewn cyrsiau.

**Mae'r Brifysgol Agored yn rhoi cymorth i fusnesau sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion drwy wneud y canlynol:**

- Gweithio'n agos gyda chwmnïau blaengar sy'n cynnig rhannu lle mewn swyddfa a chydweithredu ar brosiectau
- Ffurfio partneriaeth â sefydliadau sy'n annog creadigrwyd a menter, er mwyn rhoi cymorth i fyfyrwyr ar eu taith entrepreneuraidd
- Helpu i drefnu cystadleuaeth entrepreneuriaeth a phenwythnos gyflymu busnes (yn agored i fyfyrwyr hyd at dair blynedd ar ôl iddyn nhw raddio)
- Cymorth gan eu Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd







## Natasha Davies
## Busnes: Because U Can

Mae Because U Can yn darparu pecynnau hyfforddiant ar gyfer meddylfryd i unigolion, gweithdai i sefydliadau ar destunau megis creu hyder, delio â phryder, gosod amcanion, meddylgarwch ac ymdopi â newid, yn ogystal â Grwpiau Arweinwyr Womenspire.

*“Fe wnaeth y Brifysgol Agored bethau’n fwy hygyrch. Fel rhiant sengl, roeddwn i’n gallu astudio a gweithio rhan-amser. Fi oedd y person cyntaf yn fy nheulu i fynd i’r brifysgol, a doeddwn i ddim yn credu y gallwn i gwblhau gradd; penderfynais roi cynnig arni, un flwyddyn ar y tro. Dechreuais feddwl beth arall oedd yn bosib? A dwi wedi bod yn meddwl fel hyn ers hynny.”*

BECAUSE U CAN

The Open University
Y Brifysgol Agored
WALES CYMRU



Am fwy o wybodaeth:

I fyfyrwyr y Brifysgol Agored neu’r rheiny sydd am astudio gyda’r Brifysgol Agored, ewch i:

www.open.ac.uk/wales

Am fwy o wybodaeth am y cymorth mae’r Brifysgol Agored yn ei gynnig i fusnesau sy’n cael eu sefydlu gan raddedigion, cysylltwch â:

RES-Student-Programmes@open.ac.uk

# PRIFYSGOL ABERTAWE

Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad academaidd egnïol sy'n seiliedig ar ymchwil, ac mae wedi bod yn gwneud gwahaniaeth ers 1920 mewn gwahanol feysydd o ymchwil a datblygiad. Mae ei chymuned amrywiol a chroesawus yn ffynnu ar archwilio a darganfod, gan greu cydbwysedd rhwng addysg ac ymchwil rhagorol ac ansawdd bywyd ardderchog.

Mae Prifysgol Abertawe wedi gwneud ymrwymiad i fenter ac entrepreneuriaeth, yn ogystal â datblygu syniadau a busnesau ei myfyrwyr; hyn â'r nod o hybu menter yn seiliedig ar ymchwil a chreu effaith ar economi'r DU a'r byd.

Mae Prifysgol Abertawe yn cynnig amrediad o wasanaethau sydd â'r nod o gynorthwyo entrepreneuriaeth:

- Cyngor a Mentora
- Gweithdai Datblygu Sgiliau
- Trafodaethau am Entrepreneuriaeth
- Cyfleoedd i roi cynnig ar fasnachu
- Lleoliadau Gwaith Entrepreneuraidd
- Cyllido cychwynnol drwy gystadlaethau
- Rhaglenni cyflymu
- Mannai i feithrin busnesau
- Hackathons
- Marchnad Nadolig

**Mae Prifysgol Abertawe hefyd yn darparu cymorth ar gyfer busnesau a sefydlir gan raddedigion:**

- Cyllido
- Cymorth parhaus
- Mentora
- Cymorth ar Eiddo Deallusol (ED) a Masnacheiddio
- Mannau i feithrin busnesau







# Luke Green

## Busnes: GoGo Coffee

Mae GoGo Coffee, sydd wedi'i sefydlu yn Abertawe, yn cynnig coffi wedi'i rostio yn Sir Benfro, wedi'i weini allan o gefn car Smart. Maen nhw'n gweini eu diodydd i gyd mewn cwpanau y gellir eu compostio.

*"Mae Prifysgol Abertawe wedi rhoi cryn lawer o help i mi sefydlu GoGo Coffee. Mae eu cymorth wedi rhoi hwb i fy hyder ar adegau pan oeddwn i'n brin o gymhelliant. Cefais gyfarfodydd mentora wythnosol gyda Dave Bolton a Kelly Jordan, oedd yn caniatáu i mi ganolbwyntio ar wireddu amcanion byr-dymor."*
*"Mae Go Compare yn gweithio gyda'r Brifysgol, a chynigiwyd grant o £2,200 i mi i helpu â'r ochr gyllidol."*

GO GO
COFFEE CO

Swansea University
Prifysgol Abertawe



Am fwy o wybodaeth:

Enterprise@Swansea.ac.uk

01792 606060

# PRIFYSGOL DE CYMRU

Mae Prifysgol De Cymru (PDC) wedi ymrywmo i ddarparu myfyrwyr ag addysgu ysbrydoledig mewn amgylcheddau sy'n sbarduno'r dychymyg, er mwyn eu galluogi i ddatblygu o fewn diwylliant proffesiynol o greadigrwydd, menter, darganfod ac arloesedd.

Mae gan PDC weledigaeth sy'n golygu bod pob myfyriwr yn meddu ar sgiliau menter, pa bynnag bwnc maen nhw'n ei astudio. Mae hyn yn eu galluogi i gystadlu'n effeithiol mewn marchnad ddigidol fyd-eang, a mynd ati i sefyllu busnesau sy'n diwallu anghenion economi Cymru a'r DU.

I gefnogi'r weledigaeth hon, mae PDC wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant lle mae entrepreneuriaeth yn ffynnu fel canolbwynt o weithgaredd o fewn amgylchedd menter rhanbarthol.

**Gwasanaethau PDC i gynorthwyo entrepreneuriaeth:**

- Sesiynau mentora un-i-un a chymorthfeydd busnes
- Ffau Syniadau Da - mae cyllido hyd at £1,000 ar gael i brofi a datblygu syniadau busnes
- Academi Gweithwyr Annibynnol PDC - lle caiff myfyrwyr/graddedigion entrepreneuraidd eu paratoi ar gyfer dechrau eu busnesau eu hunain
- Clwb 5-9 - digwyddiadau min-nos ar gyfer y rheiny sydd â syniad ar gyfer busnes maen nhw am ei drafod

**Gwasanaethau mae PDC yn eu cynnig i raddedigion sy'n sefydlu busnesau:**

- Meithrinfa busnesau PDC - Stiwdio Sefydlu sydd â 18 desg (i gyd ag Apple iMac), 4 swyddfa a lle i hyd at 20 o raddedigion.
- Mae ysgoloriaethau menter ar gael ar gyfer cost y chwe mis cyntaf yn y feithrinfa fusnesau
- Mae'r tenantiaid i gyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar gyfer y feithrinfa sy'n cynnwys rhaglen ddwys o gymorth ar gyfer busnesau newydd









## Gemma Hallett

## Busnes: miFuture

Mae miFuture yn cysylltu Cenhedlaeth Z, sy'n ddigidol hyddysg, â chyfleoedd addas ym myd gwaith. Eu hamcan yw helpu 100,000 o bobl ifanc yng Nghymru tuag at gyflogadwyedd a llwyddiant.

*"Ar ôl ennill TAR o Brifysgol De Cymru, treuliais 10 mlynedd yn dysgu. Yn sgil fy ngyrfa fel athro ac ymrywmiad i'r agwedd fugeiliol o helpu'r rheiny oedd yn gadael yr ysgol tuag at fyd gwaith, sylweddolais fod yna angen gwirioneddol am ddatrysiad perthnasol. Ymddiswyddais, gan ddychwelyd i Brifysgol De Cymru i astudio Asesu Syniadau Busnes ac Entrepreneuriaeth er mwyn helpu i sbarduno'r daith entrepreneuriaeth hon."*

University of South Wales
Prifysgol De Cymru



Am fwy o wybodaeth:

Athro Dylan Jones-Evans, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol er Menter

dylan.jones-evans@southwales.ac.uk

www.startup.southwales.ac.uk

# PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT

"Caiff y Drindod Dewi Sant ei chydnabod fel un o sefydliadau mwyaf blaenllaw'r byd o ran addysg entrepreneuriaeth yn seiliedig ar greadigrwydd..... ac mae ei chyhoeddiadau'n destun trafodaethau rhyngwladol". -*Yves Punie, Canolfan Cyd Astudiaeth yr UE, Seville*


Mae'r Drindod Dewi Sant yn arbenigo mewn helpu i ddysgu entrepreneuriaeth i athrawon. Mae creadigrwydd ac arloesedd wrth wraidd amcan y Brifysgol i drawsnewid, llunio a datblygu dyfodol unigolion, ac mae'r cyfan yn dibynnu ar y gallu i weld ffyrdd newydd ymlaen. Mae'r brifysgol yn falch o gael cydnabyddiaeth fyd-eang am yr hyn mae'n ei wneud, a dewisodd y Cenhedloedd Unedig y Drindod Dewi Sant fel lle i ddysgu am entrepreneuriaeth.

**Gyda phartneriaid fel Llywodraeth Cymru a Syniadau Mawr Cymru, mae 'r Brifysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd, gan gynnwys:**

- Cyfarfodydd un-i-un
- Mae'r Swigen Greadigol yn rhoi cymorth i weithgareddau dan arweiniad myfyrwyr gyda stondin dros-dro ar gyfer arddangosfeydd, perfformiadau, codi arian, rhwydweithio a chyfarfodydd.
- Cwrdd â myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr ac entrepreneuriaid o'r un meddylfryd
- Cysylltiadau â Diwydiant - prosiectau, siaradwyr gwadd ysbrydoledig a rhwydweithio
- Gweithdai Eiddo Deallusol a Chreadigrwydd
- Digwyddiadau Wythnos Fenter - cynhelir yn flynyddol bob Tachwedd
- Cymorth wedi'i gyllido gan y Sefydliad a Llywodraeth Cymru
- Gweithgareddau allgyrsiol, cystadlaethau a gweithdai ar gyfer busnesau newydd







## Daniel Huxtable
## Busnes: Fightwear Store UK

Mae Fightwear Store UK yn dylunio dillad ac ategolion ar gyfer y crefftau ymladd; mae eu cyflenwyr ym Mhacistan a Tseina, a chaiff y nwyddau eu gwerthu ledled y byd. Caiff popeth ei ddylunio gan Daniel.

*"Roedd mynd i'r Brifysgol yn hanfodol bwysig o ran fy helpu i ddechrau fy musnes; nid yn unig o ran y mentora, ond hefyd y sgiliau technegol a ddysgais ar fy nghwrs dylunio graffig a wnaeth fy musnes yn llwyddiant! Diolch PCyDDS am bopeth rydych chi wedi'i wneud i mi."*

FIGHTWEAR STORE UK

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Am fwy o wybodaeth:

www.uwtsd.ac.uk/for-business/enterprise/

Kathryn Penaluna, Rheolwr Menter

kathryn.penaluna@uwtsd.ac.uk

# PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM

Amcan Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yw gweithio mewn partneriaeth i ysbrydoli ac addysgu ei myfyrwyr a galluogi llwyddiant cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r tîm Cynyddu Entrepreneuriaeth yn darparu myfyrwyr a graddedigion Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ag amrediad o gyfleoedd i helpu â datblygu eu sgiliau menter a/neu roi cymorth iddyn nhw i ddechrau busnes newydd. P'un a ydyn nhw am sefydlu busnes, gweithio'n annibynnol neu gynyddu eu sgiliau entrepreneuriaeth, mae'r tîm Cynyddu Entrepreneuriaeth yno i helpu.

**Gwasanaethau sydd ar gael i fyfyrwyr a graddedigion i gynorthwyo entrepreneuriaeth:**

**Digwyddiadau -** Yn fewnol ac mewn cydweithrediad â phharteneriaid allanol, caiff digwyddiadau eu trefnu gydol y flwyddyn. Mae'r digwyddiadau hyn yn amrywio o sesiynau un-awr i gynadleddau diwrnod cyfan, ac maent yn cynnwys testunau sydd o ddiddordeb i'r rheiny sydd ar bob cam o'r daith hunan-gyflogaeth, neu am ddatblygu eu sgiliau entrepreneuriaeth.

**Cymorth un-i-un -** Gall myfyrwyr a graddedigion gael gafael ar gymorth un-i-un i ddechrau eu busnesau eu hunain, er mwyn helpu i ddatblygu syniadau, trafod y camau nesaf a'r posibilrwydd o gyllido ar gyfer hunan-gyflogaeth, neu i drafod sut i dyfu busnes sy'n bodoli eisoes.

**Lle i Ddechrau Busnes -** Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn cynnig lle hyblyg i fyfyrwyr a graddedigion sefydlu a rhedeg eu busnesau newydd.

**Lolfa Fenter -** Yn cynnig lle mewn swyddfa wedi'i rhannu ar y prif gampws; delfrydol ar gyfer cyfnod cynnar busnesau, gyda desgiau ar gael am gyn lleied â £12 yr wythnos.







## Alice Murray
## Busnes: Giggles and Games – Gemau Enfawr

Mae Giggles and Games yn darparu gweithgareddau hwyl sy'n cynyddu hyder, drwy weithdai ac adeiladu tîm. Rydym hefyd yn trefnu digwyddiadau corfforaethol ac yn llogi gemau enfawr ar gyfer priodasau.

*"Fe helpodd Prifysgol Glyndŵr i mi sefydlu fy musnes yn ystod fy mlwyddyn olaf o astudio. Maen nhw wedi fy helpu gyda gwybodaeth berthnasol a chysylltiadau gwerthfawr, yn ogystal â rhoi hwb i fy hyder, er mwyn i mi wireddu fy amcanion. Mae'r cymorth hwn yn parhau, hyd yn oed ar ôl i mi raddio".*

INSPIRING innovation
ENHANCING ENTREPRENEURSHIP

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University



Am fwy o wybodaeth:

enhance@glyndwr.ac.uk

@WGUEnhance

@wguenhance

@enhancing_
entrepreneurship




Universities Wales
Prifysgolion Cymru

Prifysgolion Cymru
2 Pwynt Caspian
Caerdydd
CF10 4DQ

+44 (0)29 2044 8020

www.uniswales.ac.uk

info@uniswales.ac.uk

@Unis_Wales